Dŵr Cymru Welsh Water

NEWYDDION o Dŵr Cymru

£27 MILIWN YN CAEL EI DDYCHWELYD I GWSMERIAID

Y mae canlyniadau ariannol Dŵr Cymru Welsh Water am y flwyddyn sy'n diweddu ar yr 31ain o Fawrth, 2008 yn dangos bod enillion o ran effeithlonrwydd yn ein galluogi ni i ddychwelyd £27 miliwn i gwsmeriaid eleni drwy gyfrwng y 'fuddran cwsmeriaid.'

Y mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi bod ym mherchenogaeth Glas Cymru ers mis Mai 2001 ac fe'i gweithredir fel cwmni sydd â'r unig ddiben o ddarparu gwasanaethau o well gwerth i'w gwsmeriaid.

Fe ddywedodd Cadeirydd Glas Cymru, yr Arglwydd Burns: "Y mae cwsmeriaid Dŵr Cymru Welsh Water yn parhau i weld y buddion o'n model busnes unigryw – gan dderbyn 'buddran cwsmeriaid' sydd wedi codi'n gyson i gyrraedd £21 eleni. Y mae cwsmeriaid hefyd yn gweld buddion o un o'n rhaglenni buddsoddi cyfalaf mwyaf erioed, gyda mwy na £300 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac sydd wedi esgor ar welliannau i wasanaeth i gwsmeriaid, i ansawdd dŵr yfed ac i'r amgylchedd.

"Yr wyf yn hyderus y gall cwsmeriaid edrych ymlaen at hyd yn oed lefelau uwch o wasanaeth oddi wrth Dŵr Cymru Welsh Water yn y dyfodol, o ganlyniad i'r lefelau buddsoddi uchaf erioed yr ydym yn eu gwneud yn y busnes, gan gefnogi ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein pobl."

Uchafbwyntiau:

- Lleihau gollyngiadau, gan gyrraedd y targed ar gyfer gollyngiadau am y ddegfed flwyddyn yn olynol;
- Carthion yn gorlifo i dai 18% yn llai o gwsmeriaid am fod carthffosydd wedi blocio, dymchwel neu wedi'u gorlwytho
- Y cydymffurfio gorau erioed â'r safonau ar gyfer haearn mewn dŵr, o ganlyniad i newid prif bibellau dŵr; a
- Pharhau â boddhad uchel ar ran cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gan Dŵr Cymru Welsh Water, sef bron 80%.

Cliciwch yma i weld ein podcast canlyniadau

Y MAE POBL Y FFLINT YN CAEL EU HANNOG I YMLADD BRASTER

Y mae pobl Y Fflint yn cael eu hannog i gynorthwyo i weddnewid y dref i fod yn 'barth di-fraster' er mwyn cynorthwyo i gadw carthffosydd lleol mewn cyflwr penigamp.

Fe ofynnir i bobl leol gael gwared â braster, olew a saim yn gyfrifol er mwyn lleihau'r nifer cynyddol o achosion o rwystrau mewn carthffosydd, a achosir gan wastraff bwyd.

Fe wnaeth ymgyrch 'Ymwybyddiaeth Draeniau Cymru' gan Dŵr Cymru Welsh Water, a lansiwyd ym mis Hydref 'llynedd, ofyn i gwsmeriaid feddwl ddwywaith am yr hyn sy'n cael ei ollwng i lawr y sinc, gyda'r neges bod draeniau sydd wedi blocio yn beth drwg i'r amgylchedd ac yn peri llawer o anhwylustod.

mwy…

Hanesion eraill

Prif bibellau dŵr newydd i Abertawe

Y mae trigolion yn ardaloedd Y Sgeti, Fforestfach a'r Cocyd yn Abertawe yn cael eu gwahodd i weld cynlluniau cynllun buddsoddi gwerth £730,000. Fe fydd y cynllun, sy'n golygu adnewyddu naw cilometr o brif bibellau dŵr yn Y Sgeti, Fforestfach a'r Cocyd, yn dechrau ym mis Mehefin ac fe fydd wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd.

mwy…

Y mae ansawdd dŵr yn mynd i wella gyda buddsoddiad

Y mae rhaglen buddsoddi £19 miliwn mewn ansawdd dŵr yfed yng Ngwaith Trin Dŵr Court Farm yn mynd i ddechrau, gan ddod â gwell ansawdd yn y cyflenwad i bobl yn ne-ddwyrain Cymru. Fe fydd yn golygu newidiadau i'r broses trin dŵr, er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod dŵr yfed yn cyrraedd y safonau ansawdd tragywydd uwch.

mwy…

Baneri Glas i Gymru

Y mae buddsoddiad o thua £1 biliwn mewn trin dŵr gwastraff wedi cynorthwyo Cymru i ennill Baneri Glas ar gyfer 42 o draethau a phum marina eleni. Dim ond deuddeng mlynedd yn ôl, yr oedd gennym ond dwy faner las, ond y mae'r buddsoddi anferth wedi cynorthwyo i wella ansawdd dŵr ymdrochi yn enfawr.

Gweler ein podcast yma…

Cyfarwyddwr anweithredol newydd

Y mae Robert Ayling wedi'i benodi'n gyfarwyddwr anweithredol Dŵr Cymru Welsh Water a'i riant-gwmni, sef Glas Cymru. Yr oedd Mr Ayling yn brif weithredwr British Airways tan 2005.

mwy…

Arbedwch ddŵr AC arian!

Fe allwch gynnal a chadw'ch gardd yn las yr haf hwn a chynorthwyo'r amgylchedd drwy osod casgenni dŵr. Yr ydym wedi ymuno'n lluoedd gyda gwneuthurwr blaenllaw i gynnig cynnig 'prynwch un ac fe gewch un arall am hanner pris' i gwsmeriaid.

mwy…

Dŵr Cymru Cyf, cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestry yng Nghymru rhif 2366777, Swyddfa gofrestredig: Hoel Pentwyn, Nelson, Treharris, Morgannwg Ganol CF46 6LY.

© Dŵr Cymru Cyf 2008.